

Pertuzumab ar gyfer triniaeth gynorthwyol o gamau cynnar canser y fron HER2-positif

20 Mawrth 2019

Mae pertuzumab (Perjets), gyda trastuzumab a chemotherapi, ar gael ar y GIG. Mae'n opsiwn posibl, ar ôl cael llawdriniaeth, ar gyfer trin canser y fron cynnar sy'n dderbynnydd ffactor twf epidermol pobl 2 (HER2)-positif sydd wedi lledaenu i'r nodau lymff cyfagos.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall Gwefan y GIG fod yn fan da i gael gwybod mwy am ganser y fron ymhlith [menywod](#) a [dynion](#).

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Gofal Canser y Fron](#), 0808 800 6000
- [Breast Cancer Now](#), 0333 207 0300
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-3324-2